

Ysgol Gymraeg Teilo Sant



Polisi Datblygu

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

| | |
|---|----------------|
| Dyddiad Cychwyn | Hydref 2020 |
| Dyddiad Adolygu | 3 Mawrth 2021 |
| Cytunwyd mewn cyfarfod Llywodraethwyr ar: | 16 Mawrth 2021 |
| Arwyddwyd: | |

Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol?

Dyma'r ffordd y byddwn yn helpu plant i ddatblygu agweddau cyfrifol ac iach at berthnasoedd personol a deall mwy amdanynt eu hunain, eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill, datblygiad corfforol ac emosiynol, bywyd teuluol a materion moesegol a chymdeithasol cysylltiedig.

Nod

Cynnig rhaglen amgylcheddol a datblygiadol a fydd yn paratoi pob plentyn sydd yn ein gofal i reoli ei b/pherthynas bersonol mewn modd iach a chyfrifol; deall datblygiad corfforol ac atgenhedlu; meithrin y sgiliau, yr agweddau, y wybodaeth a'r hunan-barch a fydd yn fodd iddynt fyw bywyd hapus a chyflawn.

Ysgrifennwyd y polisi hwn i gydymffurfio â'r gyfraith ynghylch Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru ac mae'n cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a gynigir yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 11/02. Yn unol gyda'r Cwricwlwm Newydd, mae Ysgol Teilo Sant yn diogelu a hyrwyddo iechyd a lles pob plentyn. Bydd yn ymwneud â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, yn gymorth i feithrin dull gweithredu ysgol gyfan sy'n galluogi i iechyd a lles dreiddio i bob agwedd o fywyd ysgol.

Amcanion:

1. Cynnig gwybodaeth ynghylch tyfu a datblygu, llencyndod ac atgenhedlu i bob plentyn yn unol â'u hoed a'u haeddfedrwydd, ni waeth beth fo'u hil, anabledd neu ryw.
2. Datblygu agweddau cyfrifol tuag at eu hiechyd a'u lles eu hunain ac eraill.
3. Helpu'r plant i ddod i ddeall eu teimladau a theimladau pobl eraill a sut gellir effeithio arnynt.
4. Ymdrin â phryderon a chamsyniadau'r plant ynghylch perthnasoedd yn sgîl yr hyn a glywant ar y cyfryngau neu gyda ffrindiau.

5. Cynnig arweiniad a diogelu'r plant rhag profiadau rhywiol nas dymunir gan gynnwys defnyddio'r rhynggrwyd, ymdrin â phwysau gan gyfoedion neu aflonyddu arall (gan gynnwys dysgu lle mae cael cymorth).
6. Helpu'r plant i ddysgu am gyfeillgarwch, teuluoedd a pherthnasoedd eraill a gwerthfawrogi a pharchu ffrindiau a theuluoedd fel ffynhonnell serch a chariad.
7. Dysgu am berthnasoedd a rhywioldeb yng nghyswllt gwerthoedd ein cymdeithas.
8. Helpu'r plant i dderbyn mwy o gyfrifoldeb dros eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a meithrin hyder a hunan-barch.
9. Dysgu am arferion glendid personol a derbyn cyfrifoldeb cynyddol dros eu lles corfforol wrth symud tuag at lencyndod.
10. Dechrau ymdrin â stereoteipiau a'u herio.
11. Creu awyrgylch lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i holi cwestiynau a dysgu am faterion sensitif yng nghwmni oedolion y gallant ymddiried ynddynt.
12. Ymdrin â phryderon a dymuniadau'r rhieni ynghylch gwybodaeth, agweddau a sgiliau yn ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.
13. Helpu'r disgyblion i ddeall rôl rhyw mewn perthnasoedd dynol; arwyddocâd priodas a phwysigrwydd hynny i fywyd teuluol ac wrth fagu plant; yr amrywiaeth o berthnasoedd sefydlog cefnogol sy'n bodoli y tu allan i briodas.
14. Cynnig cyfleoedd i drafod materion sensitif yn agored mewn amgylchedd cefnogol a chyfarwydd er mwyn helpu disgyblion i wneud dewisiadau iach.
15. Creu cysylltiadau rhwng ein disgyblion ag asiantaethau allanol priodol e.e. y nyrs ysgol, meddygon teulu a gwasanaethau iechyd rhyw.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn yn yr ysgol?

Byddwn yn cyflawni'r amcanion uchod drwy wneud gwaith sy'n cyd-fynd â'n pynciau neu'n themâu ac fe'u cynigir i bob disgybl waeth beth fo'i hil, rhyw neu anabled. Bydd nifer o'r gweithgareddau yn dod o dan y maes dysgu Iechyd a Lles a maes dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae datblygu hunan-barch a pharch at eraill yn rhan annatod o'r holl waith a wneir yma.

Cynllunio'r gwaith:

Yn ogystal â'r athrawon, mi fydd arbenigwyr/gweithwyr y gymuned yn cael eu gwahodd mewn i'r ysgol wrth ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn naturiol, mae rhai agweddau yn cael eu haddysgu fel rhan o waith cwricwlaidd yn y dosbarth. Mae nyrs yr ysgol yn cael ei gwahodd i drafod addysg rhyw a'r

glasoed ac mae'r heddlu yn cynnal gweithdai cyffuriau ac alcohol, bwlio a seibr fwlio.

Bydd union cynnwys y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl amgylchiadau dosbarthiadau penodol, ac yn cael ei addasu yn barhaus.

Ateb cwestiynau'r disgyblion

Ein polisi yw bod plant yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau am bob agwedd ar eu haddysg. Pan fo athrawon yn ymdrin â chwestiynau am berthnasoedd a rhywioldeb byddant yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnig atebion sy'n briodol i oed ac aeddfedrwydd y plentyn neu'r plant eraill a allai fod yn gwrando. Ar adegau, bydd athrawon yn teimlo bod angen cyfeirio'r plant at oedolyn arall, y rhiant fwy na thebyg, ac os digwydd hyn bydd athrawon yn ceisio rhoi gwybod i'r rhieni/gofalwyr gyda chaniatâd y plentyn, neu'n eu holi i weld a yw'r mater wedi cael sylw.

Perthnasoedd

Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddeall a gwerthfawrogi'r ymdeimlad o berthyn a'r cyswllt a ddaw o berthnasau iach a all effeithio ar iechyd a lles. Cânt hefyd gyfle i sylweddoli pan nad yw'r cydberthnasau yn iach, a bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel, a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ddeall y byddan nhw'n cael profiad o amrywiaeth o gydberthnasau drwy gydol eu bywydau. Byddan nhw hefyd yn cael eu hannog i ddatblygu eu gallu i ffurfio, meithrin a chynnal cydberthnasau. O ganlyniad, byddan nhw'n gweld sut mae cydberthnasau iach yn hanfodol er mwyn cynnal corff a meddwl iach, a fydd yn caniatáu i ni ffynnu.

Cyfrinachedd

Dylai athrawon a disgyblion fel ei gilydd fod yn ymwybodol na ellir cadw'r holl wybodaeth a ddatgelir yn gyfrinach a hynny mewn sefyllfaoedd lle gallai cadw cyfrinachedd achosi perygl i'r disgybl neu i berson arall. Os bydd disgybl yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol neu mewn unrhyw ffordd arall, mae rhaid dilyn y weithdrefn amddiffyn plant sydd ar waith yn yr ysgol. Bydd hyn o reidrwydd, yn golygu rhoi gwybod i oedolion eraill. Bydd angen i athrawon egluro hyn i'r disgyblion mewn ffordd mor sensitif â phosibl.

Y rheol, yn syml, yw: peidiwch byth ag addo cyfrinachedd.

Mewn achosion lle nad yw diogelwch plentyn mewn perygl ond bernir bod angen trosglwyddo gwybodaeth er lles y disgybl, bydd yr athro / athrawes dan sylw yn trafod y mater â'r disgybl yn gyntaf gan nodi pwy y dylid hysbysu a'r hyn a allai ddigwydd o ganlyniad. Lle bo'n bosibl, anogir disgyblion i geisio cymorth eu rhieni yn y lle cyntaf.

Adnoddau

Ein polisi yw defnyddio adnoddau o ansawdd uchel, sy'n gyfredol, yn addas i fechgyn ac i ferched ac oed ac aeddfedrwydd ein disgyblion a bydd yr adnoddau hyn yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd.

Enghreifftiau o adnoddau:

Gwefan Schoolbeat

DVD Tyfu i Fyny

Fideo (ar gael i f15 a 6)

Ymyrraeth ELSA.

Rôl Rhieni

Croesewir cyfraniadau rhieni o ran datblygu a darparu'r rhaglen hon. Rydym yn dymuno adeiladu perthynas gadarnhaol gyda rhieni'r plant er mwyn eu cefnogi trwy gyfrwng dealltwriaeth, ymddiriedaeth a chydweithrediad. Er mwyn hybu'r bwriad hwn rydym yn:

- rhoi gwybod i'r rhieni drwy App yr ysgol beth yw'n polisi a'n hymarfer addysg ryw a pherthnasoedd.
- Yn danfon e-bost at rieni blwyddyn 5 a 6 yn cynnig mynediad i fideo ar lasoed cyn i nyrs yr ysgol ddod i drafod y pwnc ar ddechrau blwyddyn 6.
- Mae croeso i rieni ddod i weld yr adnoddau a chynnwys y rhaglen fel y mynnant. Rydym yn sylweddoli bod gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o'r rhaglen os ydynt yn dymuno ac y mae'n bolisi i drafod y rhaglen â rhieni sydd ag unrhyw bryderon. Fodd bynnag, rydym yn atgoffa'r rhieni fod llawer o gynnwys y rhaglen ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol iau yn rhan o'r cwrs gwyddoniaeth ac felly ni ellir tynnu plant o'r dosbarthiadau hyn.

- Yn annog rhieni i fod yn ymwybodol o'r polisi a thrafod y testunau gyda'i plant
- Yn rhoi gwybod i'r rhieni beth sy'n arfer dda mewn addysg ryw a pherthnasoedd, fel bod yr addysg sy'n digwydd yn yr ysgol yn cydfynd â'r addysg sy'n digwydd yn y cartref. Wrth gyfnewid gwybodaeth fel hyn credwn y bydd y plant yn manteisio wrth dderbyn cysondeb mewn gwybodaeth ynglŷn â'u cyrff a'u cyfrifoldebau.

Monitro a gwerthuso:

Bydd Cydlynwyr Maes Dysgu Iechyd a Lles yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol yn yr un modd â phob pwnc arall. Adolygir y polisi bob 3 mlynedd gan y llywodraethwyr, onibai bod canllawiau statudol newydd.

Mae'r polisi hwn yn weithredol yn Ysgol Gymraeg Teilo Sant.

Arwyddwyd: Pennaeth

Trafodwyd a derbyniwyd y polisi hwn gan y Corff Llywodraethu.

Arwyddwyd: Cadeirydd

Dyddiad: